# Y Pwyllgor Deisebau

## "PET(3)03-08 (p2): 21 Chwefror 2008"

### Cyfeirnod y ddeiseb P-03-068: Gwastadeddau'r Rhyl

### Geiriad y ddeiseb

'Mae'r rheini ohonom sydd wedi llofnodi isod, sy'n cynrychioli cymuned busnes Twristiaeth a Phreswylwyr Llandudno, Llandrillo-yn-Rhos a Bae Colwyn, yn gofyn bod y Cynulliad Cenedlaethol, fel mater o gryn brys, yn ceisio ffyrdd o atal gweithrediadau Npower yn Constable Point a'r cyffiniau ger Rhos-Point, lle y maent yn bwriadu lleoli Fferm Wynt ar y Môr (4-5 milltir o'r lan) a chynnal ymchwiliad llawn i weithredoedd NPower ynghylch eu rhan ym mhrosiect Fferm Wynt 'Gwastadeddau'r Rhyl'.

### Diben

Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y ddeiseb newydd hon.

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon ar y cyd gan Gyngor Tref Llandudno a Janet Haworth, Cyfarwyddwr Twristiaeth Gogledd Cymru. Mae'r deisebwyr wedi darparu amryw o ddarnau o wybodaeth ychwanegol. Ymysg y rhain mae:

Datganiad cychwynnol a oedd yn cyd-fynd â'r ddeiseb, i'w weld fel Atodiad A.

Datganiad ysgrifenedig gan Gordon Bellamy, cyn Lywiwr Gwasanaeth Bad Achub Llandudno sydd wedi ymddeol, i'w weld fel Atodiad B.

Pennod Saith o Drydydd Adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig 2005-06 'Energy in Wales'. Mae'r bennod hon yn ymwneud ag Ynni Gwynt. Mae'n cyfeirio'n benodol at faterion o amgylch Gwastadeddau'r Rhyl, ac ym mharagraff 195 gwnaeth argymhelliad i Lywodraeth Cynulliad Cymru:

'Both the UK Government and the Welsh Assembly Government remain committed to relying predominantly on wind energy to meet their current targets for renewable energy generation. Wind energy is beneficial to Wales but that benefit should not be overstated. It is unfair to dismiss all opposition to wind energy as nimbysim, without understanding the valid concerns that Wales is being overly populated by wind farms for what those opponents perceive as marginal benefit, set against the possible threat to leisure and tourist industries. Government at all levels will need to improve upon their communications strategy to explain both the benefits and limitations of wind power'

Mae copi o'r adroddiad hwn ar gael o wefan Senedd y DU, fel y mae ymateb Llywodraeth y DU i'r adroddiad hwn.

Mae'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Materion Cymreig mewn perthynas ag Ynni Gwynt ac ymatebion Llywodraeth y DU i'w gweld fel Atodiad C.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Chwefror 2008**